# e:cylchlythyr

## Hydref/Gaeaf 2013-14

Biodiversity Network North East Wales

Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Dwyrain Cymru



## Cynnwys


Tudalen 1
- Llwyddiant Prosiect Madfallod y Tywod Gogledd Ddwyrain Cymru yn Parhau gyda mwy yn cael eu Hailgyflwyno
- Diwrnod Mawr y Dyfrdwy – yr Ymlediad

Tudalen 2
- Apiau Alien-Tracker Newydd
- Arian i fynd i'r afael â chwyn ymledol

Tudalen 3
- Gadael i'r Gwair Dyfu yn Neuadd y Sir

Tudalen 4
- Yn galw ar bob "Gwyliwr y Môr" yng Nghymru
- Arolwg yn datgelu cyflwr cynefin perllannau Cymreig

Tudalen 5
- Mae Eich Dreigiau Cymreig Go Iawn Eich Angen Chi!
- Digwyddiadau!


**Dywedwch eich barn wrthym!**

Hoffem glywed eich meddyliau am eich newyddlenni. Gallwch roi adborth drwy'r arolwg byr hwn ar www.surveymonkey.com/s/Q99NJFL.

## Llwyddiant Prosiect Madfallod y Tywod Gogledd Ddwyrain Cymru yn Parhau gyda mwy yn cael eu Hailgyflwyno

Yn Nhalacre, ar arfordir Sir y Fflint, cafodd 65 madfall y tywod eu rhyddhau ym mis Medi fel rhan o brosiect gwarchodaeth tymor hir i ailgyflwyno'r fadfall brin hon i'r system dwyni sy'n ymestyn o Brestatyn i Dalacre. Diflannodd madfallod y tywod o arfordir gogledd Cymru yng nghanol yr ugeinfed ganrif ond bellach maen nhw'n cael eu hailgyflwyno i'r ardal.

Mae Prosiect Madfallod y Tywod Gogledd Ddwyrain Cymru yn bartneriaeth rhwng Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint, Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dechreuwyd y prosiect yn ôl yn 2003 pan gyflwynwyd madfallod y tywod ifanc i Draeth Presthaven yn Sir y Fflint ac i Dwyni Gronant yn Sir Ddinbych yn 2004.

Cafodd y madfallod y tywod ifanc diweddaraf i'w rhyddhau eu bridio yn Sw Gaer gan ddau fridiwr annibynnol, Ray Lynch a Paul Hudson. Mae Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint a gwirfoddolwyr yn monitro poblogaeth y madfallod yn flynyddol ac mae gwaith rheoli'n cael ei wneud i sicrhau bod y cynefin mewn cyflwr da i'r madfallod.

Ychwanegodd Lizzy Webster, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych, "Rydym yn awyddus i annog cymaint o wirfoddolwyr â phosibl ar gyfer monitro rhywogaethau a rheoli cynefin. Mae madfallod y tywod wedi eu diogelu yn llym dan gyfraith, felly mae angen i ni sicrhau bod ein gwirfoddolwyr wedi eu hyfforddi'n briodol cyn iddyn nhw gynnal unrhyw arolwg."





Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfranogi, cysylltwch â Lizzy ar 01824 708263 neu anfonwch e-bost at elizabeth.webster@sirddinbych.gov.uk.

## Diwrnod Mawr y Dyfrdwy – yr Ymlediad

Y mis Mehefin hwn cynhaliwyd Diwrnod Mawr y Dyfrdwy – yr Ymlediad, am y tro cyntaf, ar hyd glan afon o Barc Cenedlaethol Eryri, drwy ogledd Cymru a Swydd Gaer, hyd at aber Afon Dyfrdwy. Roedd y digwyddiad hwn, sy'n gysylltiedig â glanhau afon Diwrnod Mawr y Dyfrdwy blynyddol, yn canolbwyntio ar glirio rhywogaethau ymledol anfrodorol yr afon, yn hytrach na sbwriel. Lansiwyd y digwyddiad er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau ymledol anfrodorol yn Afon Dyfrdwy, y problemau y maen nhw'n achosi a sut i'w rheoli.

Roedd sawl sefydliad wedi gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau i sicrhau bod y digwyddiad yn llwyddiant. Cafwyd 17 digwyddiad ymarferol a oedd yn targedu'r ffromlys chwarennog yn bennaf, gyda mwy na 100 o wirfoddolwyr yn treulio dros 700 awr yn rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol dros ddeuddydd y digwyddiad. Cafwyd Lansiad Brecwast hefyd a ddenodd pwysigion a phenderfynwyr lleol, ac arddangosiadau cyhoeddus ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr.

Gallwch lawr lwytho Adroddiad Cryno am fwy o wybodaeth yma: http://www.denbighshirecountryside.org.uk/himalayan-balsam-project/.

Mae Diwrnod Mawr y Dyfrdwy – yr Ymlediad am fod yn ddigwyddiad blynyddol, a bydd yn digwydd eto'r flwyddyn nesaf, dydd Gwener 27 a dydd Sadwrn 28 Mehefin 2014. Cadwch lygad am wybodaeth yn y newyddlen hon ac ar-lein yn agosach at yr amser.



# Apiau Alien-Tracker Newydd

Mae dau ap ffôn clyfar wedi'u datblygu gan y tîm Nature Locator ym Mhrifysgol Bryste, i olrhain rhywogaethau estron yn ein moroedd a'n dyfrffyrdd.  Yn dilyn llwyddiant yr ap PlantTracker ers 2012, sy'n eich galluogi i roi gwybod am blanhigion dyfrol anfrodorol ymledol, mae'r apiau newydd hyn â'r un bwriad.

Mae'r ap SeaLife Tracker wedi'i ddylunio i fonitro statws rhywogaethau anfrodorol ymledol morol, a dangosyddion newid yn yr hinsawdd, drwy annog mwy o gofnodi gan ddeifars, perchnogion cychod, pysgotwyr ac ymwelwyr â'r arfordir. Mae ap AquaInvaders yn ceisio penderfynu ar statws 26 rhywogaeth ymledol anfrodorol dyfrol, fel y minc Americanaidd, cragen las resog a symlyn safnuchel.

Mae casglu mwy o wybodaeth am ledaeniad rhywogaethau anfrodorol ymledol presennol a chyrhaeddiad rhywogaethau ychwanegol yn hanfodol er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd a'r economi, a diogelu ein bywyd gwyllt brodorol.

Mae'r ddau ap am ddim ac ar gael i'r iPhone ac Android. Gellir defnyddio'r SeaLife Tracker ar-lein hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

SeaLife Tracker: http://naturelocator.org/sealife.html
AquaInvaders: http://naturelocator.org/aquainvaders.html





Chwith i'r dde: ewin mochyn, chwynnyn Sargassum (lluniau drwy garedigrwydd Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr).







# Arian i fynd i'r afael â chwyn ymledol

Mae Prosiect Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol Dyfrdwy (Prosiect DINNS) wedi cael £102,000 gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni Cam 2 o'r prosiect.

Dechreuodd y Prosiect DINNS yn dilyn cyfarfod Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru 2012 ar rywogaethau ymledol, a chyfarfod budd-ddeiliaid y prosiect a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru yng ngwanwyn 2012. Bwriad y Prosiect DINNS yw adeiladu ar waith a wneir yn barod o fewn y dalgylch i reoli rhywogaethau anfrodorol ymledol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y ffromlys chwarennog, llysiau'r dial, a'r efwr enfawr, ac i sicrhau bod yr holl waith rheoli a monitro'n cael ei gynnal mewn dull strategol a chydlynol.

Mae Cynllun Gweithredu Strategol wedi'i gynhyrchu, sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol o fewn dalgylch Afon Dyfrdwy. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddefnyddio i nodi prosiectau o fewn y dalgylch, a blaenoriaethu'r prosiectau hyn. Cafodd Cam 1 o'r prosiect £30,000 o gronfa Trefi Taclus Ansawdd yr Amgylchedd Lleol Llywodraeth Cymru, sy'n ariannu gwaith rheoli parhaus ar Afonydd Alun, Ceiriog a Dyfrdwy yn 2013.

Cyllidir Cam 2 o'r prosiect gan Gronfa Ecosystemau Gwydn Llywodraeth Cymru, a bydd yn ariannu rheolaeth, cynnal arolygiadau a chodi ymwybyddiaeth yn 2014. Bydd y prosiect hefyd yn datblygu Cynllun Gweithredu Bioddiogelwch ar gyfer gweithdy bioddiogelwch a gynhelir yn gynnar yn y gwanwyn.

Am fwy o wybodaeth am y Prosiect DINNS, cysylltwch â Lyn Byrne yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

LynByrne@wildlifetrustswales.org.

# Gadael i'r Gwair Dyfu yn Neuadd y Sir

Neuadd y Sir yn yr Wyddgrug yw canolbwynt gweithgareddau Cyngor Sir y Fflint. O ganlyniad, dyma'r argraff gyntaf a gaiff ymwelwyr yn aml â'r cyngor. Gyda hyn mewn cof, yn 2012 gwnaed penderfyniad i ddefnyddio'r tiroedd i ddangos ymrwymiad i fioamrywiaeth, drwy adael i rywfaint o'r gwair dyfu'n hir, yn hytrach na'i dorri'n fyr yn rheolaidd, fel sydd wedi digwydd am flynyddoedd. Mae paneli dehongli wedi'u cyflwyno i roi gwybod i staff ac ymwelwyr am y rhesymau dros dyfu'r gwair yn hir a'i fanteision i fywyd gwyllt.

Mae'r ardal a ddewisir i'w rheoli ar gyfer bywyd gwyllt yn heulog a gyda lloches, wedi'i ffinio gyda wal a choed ar ddwy allan o'r tair. Mae staff yn aml yn mynd i fwyta cinio ar y meinciau yn yr ardal ac mae aelodau o'r cyhoedd yn ei defnyddio, gan fod llwybr cyhoeddus yn rhedeg drwy'r canol. Ac eithrio rhai llwybrau wedi'u torri drwy'r gwair gan y tîm Cynnal a Chadw Tiroedd i gael mynediad at feinciau a llwybrau troed, rheolwyr yr ardal fel dolydd gwair traddodiadol – hyd yn oed drwy ddefnyddio technegau traddodiadol pladuro.

Er mwyn rheoli gwair yn llwyddiannus ar gyfer bioamrywiaeth, ac i annog tyfiant o flodau gwyllt, bydd ond angen torri'r ardal unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, a bydd angen symud y gwair a dorrir, oddi ar y safle. Mae hyn er mwyn atal y maetholion a gynhyrchir gan y gwair a dorrir rhag diferu'n ôl i'r pridd oherwydd bod yn well gan flodau gwyllt bridd heb lawer o faetholion. Os yw'r pridd yn llawn maetholion, gall y gwair cadarn drechu pob



Gweithdy pladuro yn Neuadd y Sir

rhywogaeth arall, gan eu hatal rhag tyfu ac atgynhyrchu. Yn ddelfrydol, byddai'r gwair yn cael ei dorri'n fuan, ond mae'r tywydd gwael yn gynharach eleni wedi atal hyn rhag digwydd.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o reoli'r gwair ymhlith staff sy'n gweithio yn Neuadd y Sir, darparwyd dau weithdy pladuro fel rhan o reolaeth o'r ardal. Arweiniodd Siôn Jinkinson o Campfire Cymru'r gweithdai, a oedd yn agored i staff y cyngor a gwirfoddolwyr. Mae pladuro'n ddifyrrwch heddychlon a bron yn fyfyriol, ac yn ffordd effeithiol o reoli unrhyw ardal o wair neu flodau gwyllt; gellir prynu gwahanol lafnau i fod yn addas i'r deunydd a dorrir, ac mae pladuriau yn cael eu haddasu i bob unigolyn. I ddechrau'r diwrnod, fe wnaeth Siôn ein dysgu sut i roi'r llafn ar yr handlen, ac yna addasu'r handlenni i sicrhau bod y llafn yn ffitio'n gywir, cyn mynd ymlaen i gynnal a chadw'r llafn drwy hogi a phlygu. Yna fe wnaethom ni ddechrau torri'r gwair! I ddechrau, nid oedd mor hawdd ag yr oedd yn ymddangos, mae'r blaen yn cael ei rwystro yn y twmpath glaswellt, ac roedd yn teimlo fel bod y gwair yn cael ei blygu yn hytrach na'i dorri. Ond ar ôl ychydig o ysbeidiau i hogi'r llafn, a gydag ychydig o ymarfer, roedd pawb yn dechrau teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r bladur yn eithaf effeithiol, ac ar ddiwedd y dydd, fe wnaeth pawb ddweud gymaint roeddent wedi mwynhau'r profiad traddodiadol o dorri gwaie, er bod pobl wedi sylwi ar y diffyg seidr amser cinio!

Ar ôl y gweithdy, roedd angen i'r gwair sychu, fel y gellid ei roi mewn beliau. Eto, fe wnaethom ddewis y dechneg hen ffasiwn o droi'r gwair â llaw bob dydd am dridiau cynnes iawn. Ar y trydydd diwrnod fe wnaethom fenthyca beliwr llaw gan Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Cymru i wasgu'r gwair i mewn i feliau gwair petryal, y gwnaeth y gwirfoddolwyr a helpodd i dorri a sychu'r gwair fynd â nhw gartref. Cyn y gweithdai, cynhaliwyd arolwg o'r ardal, ac fe ganfuwyd 29 rhywogaeth wahanol o wair a blodau gwyllt, mae pili-palaod brith y coed a chopr bach wedi'u gweld yn bwydo yno, ac mae cacwn amrywiol a pheillyddion eraill wedi'u gweld hefyd. Os parheir gyda'r drefn reoli hon dros y blynyddoedd nesaf, gobeithir y bydd y gwair yn ffynnu ac yn dod yn hafan i fywyd gwyllt ar diroedd Neuadd y Sir.



Belio drwy ddefnyddio beliwr llaw a roddwyd at ei gilydd gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru



Llafnau'r pladuriau

Mae Siôn Jinkinson yn ddosbarthwr pladuriau o Awstria, ac ar gael ar gyfer gweithdai a hyfforddiant pladur. Cysylltwch ag ef am fwy o wybodaeth ar sion@campfirecymru.org.uk.

## Yn galw ar bob "Gwyliwr y Môr" yng Nghymru

Mae Sefydliad Môr-wylio Cymru, elusen genedlaethol sy'n astudio morfilod, dolffiniaid a llamidyddion, wedi lansio menter newydd i fonitro morfilod Cymreig gyda chymorth gwirfoddolwyr: prosiect Gwylwyr y Môr Cymru.



Mae Prosiect Gwylwyr y Môr Cymru, cynllun a gefnogir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn bwriadu sefydlu rhwydwaith dibynadwy o wirfoddolwyr i fonitro morfilod a chodi ymwybyddiaeth o'r bywyd gwyllt morol anhygoel sydd i'w ganfod oddi ar arfordir Cymru. Mae Cymru'n ardal sydd wedi gweld llawer o forfilod, gydag un allan o'r ddwy boblogaeth o ddolffiniaid trwynbwl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig i'w canfod ar yr arfordir gorllewinol. Gwelir saith rhywogaeth arall o forfilod oddi ar arfordir Cymru'n rheolaidd, gan gynnwys llamhidyddion harbwr, dolffiniaid llwyd, dolffiniaid, morfilod pigfain a hyd yn oed morfilod danheddog.

Rŵan mae'r Sefydliad Môr-wylio'n chwilio am wirfoddolwyr brwdfrydig i gysylltu a chyfranogi.

Mae sawl ffordd o wirfoddoli; pa un a ydych eisiau cynnal eich arolygon tir eich hun, rhoi sgyrsiau a threfnu digwyddiadau i'ch cymuned leol, eisiau dechrau ymgyrch Twitter i hyrwyddo'r Sefydliad Môr-wylio neu eisiau ymweld ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o forfilod Cymreig ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Nid oes angen profiad; y cyfan sydd ei angen arnoch yw llawer o ddiddordeb mewn morfilod a gwarchodaeth.



I wybod mwy am y prosiect ac i gyfranogi, neu i drefnu sgwrs neu ddigwyddiad, cysylltwch â Swyddog Datblygu Cymru, Katrin Lohrengel ar katrin.lohrengel@seawatchfoundation.org.uk.

Wedi gweld dolffin? Cyflwynwch beth rydych wedi'i weld ar-lein, ar wefan y Sefydliad Môr-wylio (www.seawatchfoundation.org.uk) neu ffoniwch y llinell gymorth i ddweud beth rydych wedi'i weld ar 01545 561227.

## Arolwg yn datgelu cyflwr cynefin perllannau Cymreig

Mae perllannau traddodiadol yn rhoi cyflyrau ardderchog i fywyd gwyllt fynnu, ac yn gartref i o leiaf 1800 o rywogaethau bywyd gwyllt. Fodd bynnag, mae esgeulustod, pwysau gan ddatblygiad tir a newidiadau i arferion amaethyddol, gan gynnwys defnyddio plaleiddiad a llyswenwynau, wedi arwain at ostyngiad o oddeutu 94% mewn cynefin perllannau traddodiadol yng Nghymru yn ystod hanner olaf yr 20 ganrif.

Yn dilyn arolwg tebyg a gwblhawyd yn Lloegr, comisiynwyd Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl (PTES) gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (rŵan yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru), ac wedi'i gyllido gan Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairn, i gofnodi a mapio nifer a chyflwr perllannau traddodiadol yng Nghymru. Mae dadansoddiad gan PTES yn dangos mai dim ond 7% o berllannau traddodiadol sy'n weddill yng Nghymru sydd mewn cyflwr ardderchog, 58% yn dda a 35% yn wael. Yn eu hastudiaeth flaenorol o berllannau traddodiadol Lloegr a gyhoeddwyd yn 2011, cyhoeddodd PTES sefyllfa debyg.


Dywedodd Steve Oram, Swyddog Bioamrywiaeth Perllannau yn PTES, a arweiniodd y prosiect: "Mae hon yn set data newydd sbon i Gymru a fydd yn helpu pobl i ddefnyddio a gwarchod ein perllannau traddodiadol sydd ar ôl. Drwy gynhyrchu bwyd a seidr lleol, gall cnocellau'r coed, cochiaid y berllan a channoedd o rywogaethau eraill sy'n gysylltiedig â pherllannau traddodiadol elwa ohono. Os yw'r cynefin hwn yn parhau i ddiflannu, nid yn unig a ydym yn wynebu colli'r holl fywyd gwyllt hwnnw, ond hefyd amrywiaethau o ffrwythau prin, traddodiadau, arferion a gwybodaeth."

Ychwanegodd Hilary Miller, Cyfoeth Naturiol Cymru: "Mae perllannau traddodiadol yn aml yn darparu ardaloedd pwysig i'n bywyd gwyllt, ac yn enwedig peillyddion fel gwenyn a phili-palaod sydd wedi gostwng dros y blynyddoedd diweddar. Bydd mapio'r perllannau yn ein helpu i'w diogelu a gwarchod mathau o afalau lleol a ffrwythau eraill sy'n rhan bwysig o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol."



Mae'r prosiect blwyddyn yng Nghymru wedi cynnwys 120 o wirfoddolwyr lleol sydd wedi ymweld â thua 20% o'r perllannau, yn cofnodi rhywogaeth, oedran a chyflwr y coed ffrwythau – a chyfrannu rhyw 123 o ddiwrnodau gwirfoddoli at y prosiect. Fe wnaeth perchnogion 145 o berllannau hefyd ymateb i holiaduron, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr ychwanegol ar lefel leol.

Bydd ap symudol newydd yn gwneud y dasg o ychwanegu safleoedd a chasglu data'n haws, ac yn agored i unrhyw un gyda mynediad at ffôn clyfar. Gellir lawrlwytho ap *Traditional Orchard And Fruit Tree Survey* am ddim o'ch ffynonellau arferol.




## Mae Eich Dreigiau Cymreig Go Iawn Eich Angen Chi!

Ydych chi wedi gweld broga, llyffant, madfall y dŵr, madfall neu neidr yng Nghymru?

Hoffai Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid a'ch canolfan gofnodion leol wybod os ydych wedi'u gweld. Mae'r cofnodion o frogaod cyffredin a nadroedd defaid yn eich gardd yn hynod o brin ac mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn cynorthwyo eu cadwraeth.

I roi gwybod eich bod wedi'u gweld ac i gymryd rhan yng ngwaith ARC yng Nghymru ewch i www.welshdragons.org.

## Cysylltwch â ni

Wrecsam: emma.broad@wrexham.gov.uk
Ffon: 01978 298762
Sir y fflint: amy.e.green@flintshire.gov.uk
Ffon: 01352 703263
Sir Ddynbych: elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk
Ffon: 01824 708263
Conwy: anne.butler@conwy.gov.uk
Ffon: 01492 575123

## Dilynwch Ni!

Os ydych yn hoffi ein tudalen ar Facebook, sef Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am brojectau bioamrywiaeth yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Rydym yn llwytho newyddion i'r safle yn eich hysbysu o newyddion cyffrous, digwyddiadau, ffotograffau a phrojectau yn yr ardal. Dyma ffordd syml a chyflym, ffordd sy'n rhad am ddim hefyd, o ddod i wybod pa weithgareddau bioamrywiaeth sy'n digwydd a sut allwch chi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn o fewn eich sir.
Ymhellach, mae gennym gyfrif ar Twitter sy'n debyg i Facebook – gallwch dderbyn newyddion rheolaidd, a gwybodaeth am lwyddiannau a digwyddiadau.

Felly, dilynwch ni ar
Facebook: www.facebook.com/NEWBionet
Twitter: @newbionet

# Digwyddiadau!

Rhai digwyddiadau ar y gweill dros y gaeaf.

Cyhoeddir digwyddiadau 2014 ddechrau'r flwyddyn. Ewch i dudalen Facebook Bionet am fwy o fanylion neu wefannau ein pedwar awdurdod lleol.

### Dydd Gwener 6 Rhagfyr

**Gaeaf Cymreig Bendigedig**
2pm-6pm

Dathlu'r gaeaf ym Mharc Gwledig Loggerheads drwy baratoi coed yr wyl. Cewch wneud offer bwydo naturiol a lliwgar I adar yn ein hystafell grefft, cewch fwynhau mynd am dro y gaeaf eich hunan ac yna gynhesu yn y Caffi a chael eich ysbrydoli gan ein hanrhegion Nadolig yn y Siop (ar agor yn hwyr tan 7pm).

### Dydd Sul 8 Rhagfyr

**Ty Mawr– Craceri'r Nadolig**
1:30pm-3:30pm

Crefftau hwyliog o ddefnyddiau naturiol o rhai wedi'u hailgylchu.

Parc Gweledig Ty Mawr, Wrecsam SJ283415

Croeso I bob oed gyda chost o £2

### Dydd Sadwrn 18 Ionawr

**Ar grwydr trwy haid o adar!**
11.00am - 1.30pm

Cynhelir y digwyddiad hwn trwgyfrwng y Gymraeg. Taith gerdded rwydd i weld hwyaid a rhydwyr y gaeaf ar hyd y lan ac ym mhyllau gwarchodfa Morfa Madryn. Mae hwn yn ddigwyddiad ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd.
Cyfarfod: Maes parcio'r traeth, promenâd Llanfairfechan.
Cost: Am ddim ,Archebu: Mae archebu'n hanfodol,
ffoniwch Alun Jones ar 01492 575200